

## IMI Diploma in Light Vehicle Maintenance and Repair Principles Level 3



### Yn gwyno

Dyma astudiaeth fanwl o gynnal a chadw a thrwsio cerbydau.

### Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych eisoes wedi cwblhau Diploma Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau
- ... Ydych eisiau cyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol
- ... Ydych yn dda am ddatrys problemau ac â diddordeb ysol mewn cerbydau

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Caiff y cwrs hwn ei ardystio fel Diploma Technegol a'i fwriad yw diwallu elfen ddamcaniaethol y cwrs VCQ Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn. Mae hefyd yn diwallu gofynion y Fframwaith Prentisiaeth Uwch Cynnal a Chadw a Thrwsio (Cerbydau Ysgafn).

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cwblhau 8 modiwl trwy gyfuniad o elfennau ymarferol a damcaniaethol, gan astudio unedau fel:

Iechyd, diogelwch a threfniadau da yn yr amgylchedd modurol  
Cymorth ar gyfer rolau swyddi yn yr amgylchedd modurol  
Deunyddiau, dulliau saerïo, offer a dyfeisiadau mesur a ddefnyddir yn yr amgylchedd modurol

Diagnosio a chywiro diffygion trydanol ategol mewn cerbydau  
Diagnosio a chywiro diffygion mewn injans cerbydau ysgafn  
Diagnosio a chywiro diffygion mewn systemau siasis cerbydau ysgafn  
Diagnosio a chywiro diffygion trawsyrru a diffygion llinellau gyriant mewn cerbydau ysgafn  
Archwilio cerbydau ysgafn trwy ddefnyddio dulliau penodol

Byddwch yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol, fel hunanreoli, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth busnes ac ymwybyddiaeth cwsmeriaid, datrys problemau, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ac agwedd gadarnhaol at waith.

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng profion ar-lein, gwaith cwrs, aseiniadau, gwaith portffolio ac asesiadau ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn  
Cymhwyster/cymwysterau ategol priodol pan fo'n berthnasol i deilwra cynnwys y rhaglen er mwyn diwallu anghenion penodol y gymuned, eich anghenion penodol chi neu anghenion penodol y diwydiant.

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#)

### **Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ddilyn y cwrs hwn, byddwch angen Diploma Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, a hefyd mae'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm yn ofynnol. Dylech fod â dymuniad cryf i weithio yn y diwydiant cerbydau modur, dylech gadw at ethos y coleg a dylech fod yn barod i wella eich lefel mewn pynciau academaidd.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Tystysgrif IMIAL Lefel 4 mewn Astudiaethau Modurol Uwch ar gyfer Prif Dechnegwyr  
Prentisiaeth addas  
Gwaith fel technegydd beiciau modur

### Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol priodol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu a'ch ffolderi eich hun.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

